

# Y Swydd

## Teitl y Swydd Gweithiwr Cymorth Ieuencid

### Man Gweithio

Hyb Cymunedol a Theuluol Dinas

### Prif Ddiben

Gweithio gyda phlant a phobl ifanc hyd at 18 oed. Bydd yr aelod staff yn gweithio fel aelod o'r Hyb Cymunedol a Theuluol gan gefnogi holl waith yr Hyb. Bydd angen gweithio gyda'r nos ac ar y penwythnos ar adegau

Mae Plant y Cymoedd wedi ymrwmo i gyfranogiad pobl leol wrth ddarparu a rheoli gweithgareddau cymunedol, yn unol ag amcanion elusennol y mudiad.

### Yn Atebol i

Cydlynnydd yr Hyb Cymunedol a Theuluol

### Prif Dasgau

.

### Gwaith Chwarae

Mae gan chwarae ran hanfodol i'w chwarae yn natblygiad plant iach a bydd y gweithiwr yn helpu i ddatblygu a chyflwyno'r rhaglen Chwarae gan gynnwys darpariaeth cyn-ysgol, darpariaeth ar ôl ysgol, cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau a gwaith preswyl.

### Gwaith Ieuencid

Mae ymrwymiad ar Blant y Cymoedd i gefnogi'r bobl ifanc fwyaf bregus a heriol wrth ddiwallu anghenion pob person ifanc yn y gymuned. Bydd y gweithiwr yn chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu darpariaeth gwaith ieuencid briodol ar gyfer pobl ifanc 11 i 18 oed gan gynnwys gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau, darpariaeth gwyliau a gwaith preswyl.

### Gwaith Cymunedol

Mae'r Hyb Cymunedol a Theuluol yn darparu ar gyfer pob oedran yn y gymuned ac mae ganddo ymrwymiad penodol i gefnogi teuluoedd gan gynnig amrywiaeth o weithgareddau. Bydd y gweithiwr yn helpu i ddatblygu gwaith datblygu cymunedol y prosiect.

### Partneriaethau

Mae gweithio mewn partneriaeth â mudiadau eraill yn hanfodol wrth ddatblygu darpariaeth briodol. Bydd y gweithiwr yn cefnogi'r Cydlynnydd trwy chwarae rhan weithredol mewn partneriaethau cymunedol priodol.

### Gweinyddiaeth

Mae cynnal cofnodion cywir yn rhan bwysig o'r gwaith a bydd y gweithiwr yn gyfrifol am gadw cofrestrau cywir a sicrhau bod y gwaith yn cael ei gofnodi a'i werthuso. Bydd yr aelod staff hefyd yn cyfrannu at gyfarfodydd Tîm ac yn helpu i ddatblygu'r ddarpariaeth trwy broses werthuso a myfyrio. Bydd yr aelod staff hefyd yn rhannu cyfrifoldeb am bresenoldeb yr Hyb ar gyfryngau cymdeithasol.

### Cyfrifoldebau Eraill

Bydd gofyn i'r gweithiwr gyflawni unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill a bennir gan Gydlynnydd yr Hyb Cymunedol a Theuluol.

# Y Person

## Gweithiwr Cymorth Ieuenctid

Bydd y person yr ydym yn edrych amdano yn gallu dangos y canlynol:

- Cymhwyster Lefel 3 neu uwch mewn gwaith chwarae neu waith ieuenctid neu'n gweithio tuag at gymhwyster.
- Profiad o waith chwarae, ieuenctid, teuluol neu gymunedol
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, yn ysgrifenedig ac ar lafar.
- Profiad o gefnogi gwirfoddolwyr
- Profiad o weithio mewn tîm ond yn gallu gweithio ar eu liwt eu hunain.
- Dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth
- Dealltwriaeth o effaith tlodi ar deuluoedd
- DBS cyfredol
- Dealltwriaeth o arferion a phrosesau Diogelu, ac lechyd a Diogelwch.
- Trwydded yrru (dymunol)

# Y Wybodaeth

**Ffurflen Gais** o [Lynfa@valleyskids.org](mailto:Lynfa@valleyskids.org) neu  
**Lynfa Hull, Rheolwr Swyddfa, Plant y Cymoedd, 1 Cross Street, Penygraig,  
Tonypany, CF40 1LD.** - I'w ddychwelyd i'r un cyfeiriad.

**Dyddiad Cau** Y dyddiad cau i dderbyn ffurflenni cais wedi'u llenwi yw **11.59pm ar  
Ddydd Ilun y 6ed o Rhagfyr 2021**

Gofynnir ichi gynnwys rhif ffôn lle gellir cysylltu â chi (naill ai yn ystod y dydd neu  
gyda'r nos fel sy'n well gennych).

**Cyfweliadau** Cynhelir y cyfweliadau yn swyddfa Plant y Cymoedd, 1 Cross Street, Penygraig, Tonypany,  
CF40 1LD ar 14 neu 15 Rhagfyr 2021

**Gwybodaeth Bellach** Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch neu os hoffech  
drafod unrhyw agwedd ar y swydd cyn gwneud cais, ffoniwch 01443 430653 a  
gofynnwch i siarad â Roger Wilcox

## Amlinelliad o'r Telerau ac Amodau

**Cyflog** Y cyflog yw £20493 y flwyddyn, pro rata (£10.62 yr awr).

**Oriau** 14 awr yr wythnos. I'w gweithio'n hyblyg dros yr wythnos gan gynnwys  
gyda'r nos ac ar benwythnosau.

**Gwyliau** 25 diwrnod gwaith pro rata y flwyddyn ynghyd â gwyliau statudol.

**Cyfnod Prawf** Mae cyfnod prawf o chwe mis a'r cyfnod rhybudd yn ystod y cyfnod  
hwn yw un mis.

**Cyfnod Rhybudd** Yn ystod dwy flynedd gyntaf y swydd, gall staff roi mis o  
rybudd ac ar ôl dwy flynedd rhaid rhoi deufis o rybudd.

**Lleoliad** Lleolir y swydd yn Hyb Cymunedol a Theuluol Dinas.

**Buddion eraill** Mae Plant y Cymoedd yn lle cyffrous i weithio. Mae'n fudiad bach  
sy'n ymroddedig i'r ardal a phobl De Cymru.

Mae'r mudiad hefyd yn cynnig hyblygrwydd o ran sut mae staff yn gweithio.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau penodol, ffoniwch 01443 430653 a  
gofynnwch i siarad â Roger Wilcox.

# Ynglŷn â Phlant y Cymoedd

## Ein Gweledigaeth

Mae Plant y Cymoedd yn cefnogi unigolion, teuluoedd a chymunedau yn llwyddiannus i greu cyfleoedd i gyflawni eu potensial llawn ac ehangu eu gorwelion.

## Ein Cenhadaeth

Bydd Plant y Cymoedd:

- Yn galluogi plant a phobl ifanc i dyfu a datblygu trwy chwarae, addysg, hamdden a gweithgareddau creadigol.
- Yn galluogi pobl ifanc sy'n cael eu dieithrio o'r gymdeithas i ddatblygu eu hunan-barch a'u helpu i chwarae rhan adeiladol yn eu cymuned.
- Yn galluogi oedolion i wella eu hamgylchiadau, eu hymdeimlad o les a'u hamgylchedd.
- Yn annog pobl leol i ddod o hyd i'w datrysiadau eu hunain i'r heriau sy'n wynebu eu cymuned.
- Yn grymuso cymunedau lleol i lunio sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu ac i gynyddu'r adnoddau sydd ar gael iddynt.

## PLANT Y CYMOEDD 1977-2021

Mae Plant y Cymoedd yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant. Fe'i sefydlwyd yn 1977 fel Prosiect Cymunedol Penygraig a daeth yn Blant y Cymoedd yn 1999.

Mae'r mudiad wedi gweithio:

- i ryddhau'r potensial mewn cymunedau i helpu i leddfu effeithiau amddifadedd cymdeithasol;
- i alluogi pobl i dyfu fel unigolion; ac
- i ddod o hyd i atebion i broblemau yn eu cymuned.

Rydym yn cychwyn o'r safbwynt y gall pawb gyfrannu at ei gymuned. Mae gan bawb rywbeth i'w roi. Nid y 'difreintiedig' yw'r broblem: maen nhw'n rhan o'r datrysiad. Ni allwn lwyddo oni bai eu bod yn llwyddo.

Mae Plant y Cymoedd yn darparu mynediad agored a darpariaeth wedi'i thargedu. Mae yna bedwar Hyb Cymunedol a Theuluol. Maent yn darparu chwarae cyn-ysgol, chwarae y tu allan i'r ysgol, clybiau ieuenctid, grwpiau 16+, gweithdai drama, theatr ieuenctid, dawns greadigol i blant, theatr, digwyddiadau cerddoriaeth a dawns, ac amrywiaeth o weithgareddau i oedolion.

Yn ogystal â'r pedwar Hyb Cymunedol a Theuluol, mae 'Sparc' (Prosiect Celfyddydau Ieuenctid), Y Tîm Teulu a Chanolfan Breswyl a Gweithgaredd yn y Gŵyr.

Mae yna hefyd is-gwmni masnachu sy'n datblygu mentrau cymdeithasol sy'n cynnwys Y Ffatri, Yr Iard Chwarae a Chaffis Coffi Coch. Mae'r Awdurdod Lleol, Cyngor Celfyddydau Cymru, Ymddiriedolaethau, busnesau a chymwynaswyr unigol oll yn allweddol i gefnogi gwaith y mudiad.

Mae Plant y Cymoedd wedi ennill Gwobr Cymdeithas Adfywio Trefol Prydain gyda'r Panel dyfarnu yn nodi: "Bu cymhlethdod ac ansawdd y gwasanaethau y mae'n eu darparu greu argraff arbennig ar y Panel. Mae'r prosiect yn wirioneddol ysbrydoledig ac uchelgeisiol. Mae'n dangos arfer gorau ym mhob agwedd ar ei waith. Mae'r Prosiect wedi dangos yn glir ei allu i ffynnu a gweithio i'r safonau uchaf."

Yn 2013 cyhoeddwyd llyfr am waith Plant y Cymoedd, "*Can you hear me? Valleys Kids finding answers 1977-2013*". Wrth lansio'r llyfr, dywedodd Cadeirydd Cyngor y Celfyddydau: "Mae'n llyfr sy'n mynnu cael ei ddarllen y tu hwnt i'n cymoedd, y tu hwnt i Gymru, lle bynnag mae arferion gwell yn cael eu hystyried yn rysâit i fywydau go iawn dyfu mewn lleoedd go iawn. Penderfynodd staff ymroddedig wneud gwahaniaeth i nifer o fywydau trwy wrando arnynt, eu grymuso a dysgu oddi wrthynt".

## Hwb Cymunedol a Theuluol Dinas - Mae

Dinas wedi'i lleoli mewn fflat gymunedol fach ym Mhen Dinas, sy'n cynnwys 5 bloc o fflatiau a gafodd eu trawsnewid gan gymdeithas dai leol. Er gwaethaf ei faint cymedrol, mae'r fflat yn cael ei ddefnyddio gan bobl o bob oed yn y gymuned.